Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Ymchwiliad i gŵyn

# gan Mr G

# yn erbyn Cyngor Sir y Fflint

Adroddiad gan
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 201703176

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Y gŵyn | 3 |
| Yr Ymchwiliad | 3 |
| Deddfwriaeth a Rheoliadau Perthnasol | 3 |
| Y Digwyddiadau a Gwybodaeth Cefndir Perthnasol | 4 |
| Tystiolaeth Mr G | 8 |
| Tystiolaeth y Cyngor | 10 |
| Tystiolaeth Ychwanegol gan y Datgymalwr | 13 |
| Tystiolaeth Ychwanegol gan y DVLA | 13 |
| Dadansoddiad a Chasgliadau | 14 |
| Argymhellion | 18 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hapgor. Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynydd fel Mr G.

## Crynodeb

Cwynodd Mr G i'r Ombwdsmon am y modd yr oedd Cyngor Sir Y Fflint ("y Cyngor") wedi awdurdodi symud a dinistrio ei gerbyd, a oedd wedi'i barcio mewn cilfach barcio tu allan i'w fflat. Dywedodd Mr G y cafodd y cerbyd, yr oedd yn ei adfer, ei symud heb rybudd a'i ddinistrio, a bod yr offer a chyfarpar wedi eu cynnwys yn y cerbyd, hefyd wedi eu dinistrio.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon, tra dywedodd swyddog y Cyngor nad oedd ymchwiliad o gronfa ddata cerbydau'r DVLA wedi adnabod ceidwad cofrestredig y cerbyd, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymchwiliad o'r fath wedi'i gofnodi. Ni allai'r Cyngor ddarparu Ombwdsmon ychwaith â thystiolaeth i brofi y cyhoeddwyd Rhybudd Statudol yn hysbysu'r tirfeddiannwr o'i fwriad i symud y cerbyd. Ni allai'r Cyngor ddweud pryd y cyhoeddwyd y rhybudd statudol a chadarnhaodd y tirfeddiannwr na dderbyniodd y rhybudd statudol. Yn olaf, canfu'r ymchwiliad y dywedodd y Cyngor a'r datgymalwr cerbydau wrth Mr G, yn dilyn symud y cerbyd, bod y cerbyd wedi'i ddinistrio, er na gafodd ei ddinistrio nes bythefnos wedyn.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn gan nad oedd digon o dystiolaeth i brofi bod y cyngor wedi cymryd camau priodol i sefydlu fod cerbyd Mr G wedi ei adael. Methodd y cyngor i ddilyn y drefniadaeth statudol gywir wrth gyhoeddi rhybudd statudol o'i fwriad i symud a chael gwared â cherbyd Mr G.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn ac argymhellodd bod y Cyngor yn:

- Ymddiheuro i Mr G am y diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn a'i ddarparu ag iawndal o £2500 am golli ei gerbyd a'i gynnwys.

- Darparu iawndal pellach o £250 am ei amser a'i drafferth o geisio esboniad gan y Cyngor o'r hyn a ddigwyddodd.

Yn ogystal, argymhellodd yr Ombwdsmon y dylai'r Cyngor adolygu a diwygio ei weithdrefnau o fewn ei wasanaethau, i sicrhau bod cofnodion addas yn cael eu creu a bod dogfennaeth yn cael eu cadw ar gyfer pob gweithgaredd sy'n ymwneud â symud a chael gwared â cherbydau o dan y rheoliadau statudol perthnasol.

## Y Gŵyn

1. Cwynodd Mr G bod Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") wedi gweithredu'n gamweinyddol yn y modd y trefnodd i symud ei gerbyd o dir preifat, cyn ei ddinistrio. Dywedodd Mr G bod y cerbyd wedi'i gofrestru o dan ei enw am ryw ddwy flynedd. Roedd gan y cerbyd Hysbysiad Oddi ar y Ffordd Statudol ("SORN")[1] ac wedi'i barcio ar dir yn gysylltiedig â'r cyfeiriad y cadwodd yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau ("y DVLA") iddo ar ei gofnodion. Roedd Mr G yn dramgwyddedig bod y cyngor wedi trin ei gerbyd fel wedi'i adael ac wedi'i ddinistrio. Cwynodd Mr G bod yr anghyfiawnder wedi'i gyfuno â'r ffaith bod y cerbyd yn cynnwys swm arwyddocaol o offer a chyfarpar a ddefnyddiodd i atgyweirio ac adfer cerbydau a bod y rhain hefyd wedi eu dinistrio.

## Ymchwiliad

2. Cefais sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan y Cyngor ac ystyriais y rheini ar y cyd â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Mr G. Mae fy Ymchwilydd wedi cyfweld swyddogion y Cyngor ac wedi cael gwybodaeth gan y DVLA a'r cwmni preifat a gontractiodd y Cyngor i symud cerbyd Mr G. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn ond rwyf yn fodlon na chafodd unrhyw beth arwyddocaol ei esgeuluso.

3. Cafodd Mr G a'r Cyngor ill dau gyfle i weld a chyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft o'r adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

## Y ddeddfwriaeth a Rheoliadau Perthnasol

4. Mae Adran 99 o Ddeddf Rheoliad Traffig Ffyrdd 1984, Rhan VIII Rheolaeth a gorfodaeth: Symud neu lonyddu cerbydau, sy'n berthnasol yng Nghymru, yn datgan:

> "Ble mae'n ymddangos i awdurdod sydd… ag awdurdod i symud cerbyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran hon bod y cerbyd ar dir heblaw ffordd sy'n cael ei feddiannu gan unrhyw berson, rhaid i'r

[1] Gwneir SORN yn pan mae rhywun yn cymryd cerbydd "oddi ar y ffordd". Mae cerbyd oddi ar y ffordd os nad yw ar ffordd gyhoeddus, megis mewn garej, helfa neu ar dir preifat.

awdurdod roi rhybudd iddo yn y modd penodol y maent yn bwriadu symud y cerbyd yn unol â'r rheoliadau, ac nid oes ganddynt yr hawl i'w symud os yw'n gwrthwynebu'r cynnig yn y modd penodol ac o fewn y cyfnod penodol."

5. Mae Adran 8 o'r Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau ("y Rheoliadau") 1986/183 Rhan II Symud cerbydau, yn datgan, mewn perthynas â'r modd o roi rhybudd i'r deiliad tir cyn symud cerbyd:

> "at ddiben adran 99(3) o Ddeddf 1984, mae'r modd y bydd yr awdurdod yn rhoi rhybudd i berson sy'n ymddangos iddynt fel deiliad tir ble mae cerbyd y mae'r awdurdod yn bwriadu symud, fel a ganlyn –
>
> ...
>
> (3) Rhaid rhoi'r rhybudd –
>
> ...
>
> (d) os yw'r person sy'n ymddangos fel deiliad yn gwmni neu gorff corfforedig, drwy ei anfon at ysgrifennydd neu glerc y cwmni neu'r corff yn eu swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa, neu ei anfon drwy lythyr cofrestredig rhagdaledig, neu drwy wasanaeth dosbarthiad a gofnodwyd, wedi'i gyfeirio at ysgrifennydd neu glerc y cwmni neu'r corff yn y swyddfa honno…"

**Y digwyddiadau a gwybodaeth cefndir perthnasol**

6. Ar 18 Chwefror **2016,** symudodd Mr G i'w gartref newydd, sef fflat gyda pharcio'n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys gwagleoedd ychwanegol i ymwelwyr barcio. Roedd yr ardal barcio ar dir preifat. Esboniodd Mr G, cyn symud i'w fflat, roedd wedi cysylltu â'r cwmni a oedd yn rheoli ei cyfadeilad fflat ("y Cwmni Rheoli") i ganfod a allai barcio cerbyd ychwanegol yn yr ardal parcio i ymwelwyr. Derbyniodd gadarnhad bod hynny'n iawn ond nid yw'n cofio rhannu manylion ei gerbyd ychwanegol pryd hynny.

7. Cerbyd ychwanegol Mr G oedd car mewn cyflwr adfeiliedig a oedd ef yn y broses o'i adfer. Nid oedd gan y cerbyd dystysgrif MOT ac roedd Mr G wedi cwblhau SORN mewn perthynas â'r car. Mae'r DVLA wedi cadarnhau bod Mr G wedi'i gofnodi fel Ceidwad Cofrestredig y cerbyd ers 3 Hydref 2014.

8. Ar 21 Chwefror 2016, cadarnhaodd y DVLA eu bod wedi derbyn tystysgrif gofrestru wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan Mr G, yn eu hysbysu o'i gyfeiriad newydd. Diweddarwyd y cyfeiriad newydd i gofrestr cerbydau'r DVLA ar 21 Mawrth ac roedd y newidiadau ar gael ar y system 'Web Enabled Enquiry' ("WEE")[2] o fewn 24 awr o ddiweddaru'r gofrestr cerbydau.

9. Ar 9 Mawrth, derbyniodd y Cyngor "Ymchwiliad Cerbyd Wedi'i Adael" gan Reolwr Eiddo ("y Rheolwr Eiddo") a oedd yn gweithio i'r Cwmni Rheoli. Nododd bod cerbyd adfeiliedig, wedi'i adael, heb symud o gilfach barcio yn yr eiddo am bron i 3 wythnos. Darparodd y Rheolwr Eiddo rhif ffôn cyswllt.

10. Cafodd yr ymchwiliad ei anfon ymlaen i "Wasanaeth Stryd"[3] y Cyngor ("y Gwasanaeth") ac aeth dau swyddog gorfodi ("Swyddog A" a "Swyddog B") o'r Gwasanaeth i ymweld â'r cerbyd ar 9 Mawrth. Cofnodwyd yr ymweliad yn nodiadur Swyddog A a chymerwyd lluniau o'r cerbyd, yr wyf wedi eu gweld. Ymddangosodd y cerbyd mewn cyflwr gwael gyda chloeon difrodedig a theiar fflat. Cofnodwyd bod dau o ddrysau'r cerbyd wedi eu datgloi ac roedd gwaith papur y tu mewn i'r car a oedd yn adnabod Mr G yn ôl enw ac yn nodi bod y perchennog yn byw mewn eiddo ychydig o filltiroedd i ffwrdd (dyma gyfeiriad cartref blaenorol Mr G). Ceisiodd y Swyddogion ymweld â'r eiddo hwnnw, ond roedd giât a chlo glap yn eu rhwystro, heb unrhyw un yn bresennol. Cofnododd Swyddog A ei bod wedi e-bostio swyddog gorfodi arall ("Swyddog C"), yn gofyn iddo gynnal ymchwiliad WEE ar y cerbyd (ef oedd un o'r unig ddau swyddog y Gwasanaeth a oedd wedi'u hawdurdodi ar y pryd i ymgymryd ag ymchwiliad o'r fath).

[2] System yw'r system WEE sy'n caniatau i unigolion awdurdodedig penodedig (megis swyddogion gorfodi awdurdodau lleol) wirio manylion perchennog cerbyd o'r gofrestr cerbydau byw.
[3] Mae'r wasanaeth hon yn rheoli'r holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â strydoedd, priffyrdd a mannau agored megis goleadau stryd, cebrydau wedi'i gadael a materion eraill sy'n ymwneud â ffyrdd neu balmentau.

11. Mae wedi'i gofnodi yn nodiadur Swyddog A ei bod hi a Swyddog C wedi ymweld â'r cerbyd eto ar 14 Mawrth. Mae ei nodiadau yn cofnodi ei bod wedi cloi'r car ac y byddai Swyddog C yn cynnal ymchwiliad WEE, gan arwyddo nad oedd hyn wedi'i wneud hyd yma. Dywedodd Swyddog A mai dyma oedd ei chysylltiad olaf â'r cerbyd. Dangosodd taenlen, a gadwodd y gwasanaeth gan honni iddo restru'r holl ymchwiliadau cerbydau wedi'i gadael a'r camau a gymeriwyd, bod ymgais wedi'i wneud ar 14 Mawrth i gysylltu â'r Rheolwr Eiddo, ond nid oedd ateb.

12. Y digwyddiad nesaf mewn perthynas â cherbyd Mr G oedd ymchwiliad cerbyd wedi'i adael ymhellach a gyflwynwyd yn ddi-enw i'r Cyngor drwy ei wefan ar 7 Gorffennaf. Ymddengys fod y dystiolaeth ar y daenlen rhagddywededig yn nodi y cynhaliwyd ymweliad ar 3 Awst. Ymwelodd Swyddog C a chydweithiwr yr un eiddo a fethodd eu cydweithwyr gael mynediad iddo yn flaenorol ar 9 Mawrth, a siaradodd â dau unigolyn a ddywedodd eu bod yn anymwybodol o Mr G ond nid oeddent wedi symud i mewn hyd yn ddiweddar.[4] Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i gofnodi ar daenlen y Cyngor.

13. Mae nodyn ar sgrinlun o'r daenlen a ddarparodd y Cyngor yn dangos y dylai rhybudd 15-diwrnod (cyfeiriad i'r "Rhybudd Statudol" wedi'i ddisgrifio isod) fod wedi'i anfon i'r perchenog tir ar 3 Awst. Mae'r Cyngor hefyd wedi darparu allbrint o rybudd "Rheoliadau Symud a Gwaredu Cerbydau 1986 Atodiad 2 – Rheoliad 8 – Ffurf o Rybuddio Deiliad Tir Cyn Symud Cerbydau wedi'u Gadael" ("y Rhybudd Statudol") heb ei ddyddio a heb ei lofnodi. Roedd hwn wedi'i gyfeirio at y Rheolwr Eiddo ac yn ei rybuddio y byddai'r Cyngor yn symud y cerbyd oni bai ei fod yn gwrthwynebu o fewn 15 diwrnod o'r rhybudd. Dywedodd y Cyngor bod y llythyr hwn wedi'i anfon drwy Bost Dosbarth Cyntaf ond ni chadwyd copi o'r Rhybudd Statudol.

14. Ar 10 Awst, anfonodd y Rheolwr Eiddo ebost at y Cyngor yn cyfeirio at drafodaeth a gafodd â swyddog amhenodol oddeutu wythnos yn flaenorol.[5] Yma, roedd yn deall y byddai'n derbyn gwaith papur i awdurdodi symud y cerbyd ond nad oedd hyn wedi dod drwodd.

---

[4] Darparodd Swyddog C y wybodaeth hon yn y cyfweliad.
[5] Nid yw hyn wedi'i gofnodi ar daenlen y Cyngor.

Cydnabu’r Cyngor yr ymchwiliad, gan ddweud fod ei ymchwiliad wedi’i gyfeirio at swyddog o’r Gwasanaeth. Rwyf wedi gweld datganiad gan y Rheolwr Eiddo yn cadarnhau nad oedd wedi derbyn unrhyw rybudd o fwriad y Cyngor i symud cerbyd Mr G ac nad oedd wedi rhoi caniatâd pendant i'w symud.

15. Cynhyrchodd system gyllidol y Cyngor archeb prynu ar 11 Hydref i awdurdodi cwmni datgymalu cerbydau lleol (“y Datgymalwr”) i “adfer” cerbyd wedi’i adael y tu allan i fflat Mr G.

16. Ar 22 Tachwedd, ebostiodd Swyddog C y Datgymalwr yn gofyn iddo “symud a chael gwared â” cherbyd Mr G a rhoddodd rif archeb prynu i’r Datgymalwr ar gyfer y gwaith. Nododd y Datgymalwr, ar 22 Tachwedd, symudwyd cerbyd Mr G ac ar 24 Tachwedd, fe’i hardystiwyd fel wedi’i ddinistrio.

17. Dychwelodd Mr G i’w gartref ar 24 Tachwedd ar ôl 3 diwrnod yn yr Ysbyty yn dilyn triniaeth lawfeddygol. Ar ôl sylwi fod ei gerbyd ar goll, cysylltodd â’r Heddlu a ymchwiliodd a sefydlodd bod y Cyngor wedi symud ei gerbyd. Y diwrnod wedyn, cafodd Mr G ei roi mewn cysylltiad â Swyddog C a gadarnhaodd bod y Datgymalwr wedi symud y car.

18. Cadarnhaodd Swyddog C, yn dilyn cyswllt gan Mr C, cysylltodd â’r Datgymalwr ar 25 Tachwedd a chafodd wybod bod y cerbyd wedi’i ddinistrio. Cadarnhaodd Mr G ei fod wedi cysylltu â’r Datgymalwr yr un diwrnod a dywedwyd wrtho hefyd fod ei gerbyd wedi’i ddinistrio’r diwrnod cynt. Cadarnhaodd tad Mr G ei fod yn bresenol pan siaradodd Mr G â’r Datgymalwr a chadarnhaodd adroddiad Mr G o’r drafodaeth gan iddo glywed y drafodaeth ar seinydd y ffôn ar y pryd.

19. Ar 24 Tachwedd, cadarnhaodd Mr G a Swyddog C eu bod wedi siarad â’r swyddog heddlu a oedd yn delio ag achos Mr G, a chadarnhaodd hithau bod Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (“y CCH”) yn dangos bod y cerbyd wedi’i gofrestru yng nghyfeiriad Mr G. Rhedodd Swyddog C ymchwiliad WEE (wedi’i gadarnhau gan y DVLA) yr un diwrnod ond dywedodd na ddangosodd yr ymchwiliad WEE unrhyw fanylion ceidwad cofrestredig ar gyfer cerbyd Mr G.

20. Ar ôl hynny, datganiodd y Datgymalwr nad oedd y cerbyd wedi'i ddinistrio mewn gwirionedd ar 24 Tachwedd, ond yn cael ei gadw yn eu cyfleuster nes iddo gael ei waredu ar 6 Rhagfyr. Dywedodd y Datgymalwr ei fod wedi cadw'r cerbyd yn dilyn galwad ffôn gan berchennog y cerbyd pan gynigwyd y cyfle iddo ei wirio am unrhyw gynnwys. Dywedodd y Datgymalwr nad oedd ganddo unrhyw gofnod o Mr G yn mynychu.

21. Ar ôl hynny, cynghorwyd Mr G i ymweld ag yswirwyr y Cyngor er mwyn gwneud hawliad. Fodd bynnag, ar ôl cyflwyno hawliad am oddeutu £2,100 i ddisodli ei gar, offer a chyfarpar, cafodd ei gais ei wrthod gan y Cyngor. Cwynodd Mr G i'r Cyngor am y modd yr oedd wedi awdurdodi symud a dinistrio ei gerbyd. Ni chadarnhaodd y Cyngor ei gwyn, gan ddatgan:

> "Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael i mi, ystyrir cerbyd wedi'i adael pan mae'n ymddangos i awdurdod lleol bod cerbyd modur wedi'i adael heb awdurdod cyfreithlon. Mae hyn yn golygu y tybir bod cerbyd wedi'i adael pan mae swyddog awdurdodedig o'r Cyngor yn penderfynu ei fod wedi'i adael. Dros gyfnod o amser, ceisiodd [yr Adran] sefydlu perchnogaeth y cerbyd drwy'r DVLA a'r ymchwiliadau lleol, ond methodd i wneud hynny. Gallai'r Cyngor ddinistrio cerbyd sydd wedi'i adael os na allai ddarganfod y perchenog neu os yw'r perchenog yn methu â chydymffurfio a rhybudd i gasglu'r cerbyd."

## Tystiolaeth Mr G

22. Dywedodd Mr G bod y cerbyd yn cael ei gadw'n gyfreithlon ar dir preifat, wedi'i ddatgan â SORN, ac wedi'i gofrestru i'w gyfeiriad newydd ers dros chwe mis cyn i'r Cyngor awdurdodi ei symudiad. Amlygodd Mr G bod cist y car yn cynnwys offer a chyfarpar gan nad oedd ganddo unrhyw le arall i'w cadw. Dywedodd Mr G fod ganddo dri thyst a allai gadarnhau y cadwodd ei offer yn y car.

23. Dywedodd Mr G bod y car wedi'i symud ar gyfarwyddyd y Cyngor, heb adnabyddiaeth briodol o'r perchenog. Amlygodd Mr G bod yr Heddlu a'r DVLA ill dau wedi cadarnhau bod y cerbyd wedi'i gofrestru i'w

gyfeiriad newydd ers Mawrth 2016. Dywedodd Mr G hefyd na roddwyd unrhyw rybudd ar y cerbyd i ddangos unrhyw broblem am ei gadw tu allan i'w eiddo, a fyddai, ynddo'i hun, wedi gwella'r mater. Ailadroddodd Mr G fod ganddo ganiatâd y Cwmni Rheoli i gadw ei gerbyd yno, a pe bai wedi gofyn iddo symud y car, byddai wedi gallu gwneud hynny'n hawdd gan fod ganddo fynediad i safle storio a llwythwr i gludo'r cerbyd.

24. Dywedodd Mr G, fel canlyniad uniongyrchol i weithredoedd y Cyngor, mae wedi colli eiddo gwerth £2100, wedi gorfod gwrthod llawer iawn o waith atgyweirio a chostau gweinyddol DVLA o £80. Mae Mr G wedi fy nharparu, a'r Cyngor, gyda rhestr eitemedig o'r offer a gadwodd yn ei gerbyd gyda chostau adnewyddu cysylltiedig. Mae natur y cyfarpar a gollwyd, a'u gwerth adnewyddu, yn ymddangos yn rhesymol ac yn cefnogi defnydd honedig Mr G o'r cyfarpar hwnnw. Mae gwerth adnewyddu'r cerbyd sydd wedi cael ei awgrymu gan Mr G o fewn terfynau rhesymol o ystyried y treigl amser ers i'r cerbyd gael ei ddinistrio.

25. Hefyd, darparodd Mr G ddatganiad gan y Rheolwr Eiddo yn cadarnhau nad oedd wedi derbyn y Rhybudd Statudol a'i fod yn "… ymchwilio'r car "a oedd wedi'i adael" a cheisiodd cymorth Cyngor Sir y Fflint a'r Heddlu i adnabod y perchenog. Ni dderbyniwyd unrhyw ganiatâd (i symud y car) nac unrhyw rybudd."

26. Dywedodd Mr G:

> "Dylai fod yn afresymol fy mod yn cadw cerbyd a chynnwys yn gyfreithlon, dim ond iddo gael ei symud [gan y Cyngor] a'i ddinistro. Arweiniodd methiannau o fewn systemau gwirio cerbydau a ddefnyddiwyd [gan y Cyngor] at fy ngholled o eiddo a gwaith cysylltiedig. Heb osod unrhyw rybudd ar y car, ynghyd â dim cyswllt drwy'r post ac ati, sut fyddai'r awdurdod yn cynnig y gallwn osgoi hyn, neu osgoi'r digwyddiad hwn yn y dyfodol?"

## Tystiolaeth y Cyngor

27. Mewn ymateb i fy ymholiadau, darparodd y Cyngor sylwadau ar wahanol agweddau o'r gŵyn, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- "copi o'r math o rybudd" a ddosbarthiwyd i'r Rheolwr Eiddo a oedd yn nodi bod rhybudd wedi'i argraffu a'i arwyddo a'i ddyddio gyda llaw. Ychwanegodd y Cyngor, o ran dosbarthu'r rhybudd, mae'r gyfraith yn gofyn Post Dosbarth Cyntaf, a hyd y defnyddir Post Dosbarth Cyntaf, bydd llys barn yn ystyried bod yr eitem wedi ei ddosbarthu, fel y nodwyd yn Rheolau Trefniadaeth Sifil 6.3.[6] Ychwanegodd y Cyngor, fodd bynnag, fel canlyniad i gŵyn Mr G at y Cyngor, bydd pob rhybudd yn cael eu hanfon yn y dyfodol drwy ddosbarthiad a gofnodwyd i sicrhau fod gan y Cyngor y dystiolaeth angenrheidiol os caiff ei herio.

- Mae awdurdodau lleol o dan ddyletswydd o dan Adran 3 o Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Mwynder) 1978, i symud cerbyd sydd wedi'i adael yn ei ardal, ar unrhyw dir yn yr awyr agored, neu ar unrhyw dir arall sy'n ffurfio rhan o briffordd.

- Dywedodd y Cyngor, ar gyfer cerbydau sydd wedi'i gadael ar dir preifat, y cyfnod rhybudd, lle gall deiliad y tir wrthwynebu i symud cerbyd sydd wedi'i adael, yw 15 diwrnod.

28. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, cyfwelodd fy Ymchwilydd hefyd â Swyddogion A, B, a C yn ogystal â'r Rheolwr Gwasanaeth a oedd yn gyfrifol am y Tîm. Mae eu tystiolaeth hwy wedi eu hymgorffori'n gyffredinol yn yr adran Digwyddiadau a Gwybodaeth Cefndir Perthnasol uchod. Fodd bynnag, mae safbwyntiau'r unigolion canlynol yn berthnasol.

[6] Gellir dosbarthu ffurflen drwy "… Post Dosbarth Cyntaf, cyfnewid dogfen neu wasanaeth arall sy'n darparu ar gyfer dosbarthiad ar y diwrnod busnes nesaf..." (https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules/part06#6.6).

29. Cadarnhaodd swyddogion na fyddai unrhyw “ffeil” gorfodi yn cael ei greu ar unrhyw gamau gorfodi a gymerir mewn perthynas ag unrhyw gerbyd penodol sydd wedi’i adael. Defnyddiwyd prif daenlen i gofnodi camau sy’n ymwneud ag ymchwiliadau a wnaethpwyd ynlgyn â unrhyw gerbydau penodol. Yn yr achos hwn, cefais fy nharparu â sgrinlun o daenlen gan y Cyngor (ni ddarparwyd y ffeil taenlen wreiddiol) a oedd yn cynnwys y manylion canlynol mewn perthynas â cherbyd Mr G:

Ar gyfer yr ymchwiliad wedi’i ddyddio 9 Mawrth 2016:

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr ymchwiliad cyntaf | 09/03/16 |
| Swyddog | Swyddog A/B |
| Camau a gymerwyd | “drws y tu blaen a drws cefn wedi eu datgloi–ymgeisiau wedi’u gwneud i ymweld â’r cyfeiriad – eiddo wedi’i rwystro gan lidiard – cais gwirio WEE [Swyddog C] (wedi’i ddychwelyd) gyda [Swyddog C] ar 14/3/2016 a gwnaeth y car yn ddiogel/ei gloi… aros gwiriad WEE – ceisio cysylltu [â’r Rheolwr Eiddo] 16/4/16 – dim ymateb neu peiriant ateb”. |

Ar gyfer yr ymchwiliad wedi’i ddyddio 7 Gorffennaf J 2016

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr ymchwiliad cyntaf | 03/08/16 |
| Swyddog | Swyddog C |
| Camau a gymerwyd | “llythyr 15 diwrnod i’r perchenog tir yn ofynnol” |

30. O ran ymgymryd ag ymchwiliad WEE, cadarnhaodd Swyddog C, oherwydd rhesymau hanesyddol, roedd yn un o’r ddau swyddog o’r tîm a oedd wedi eu hawdurdodi i gael mynediad i gyfleuster chwilio WEE y DVLA. Roedd Swyddog C yn benderfynol ei fod wedi ymgymryd âg ymchwiliad o gronfa ddata’r WEE ond bod canlyniadau wedi dod yn ôl yn datgan nad oedd gan y car berchenog. Dywedodd ei fod wedi profi anawsterau yn y gorffennol gyda’r gwefan WEE. Dywedodd

Swyddog C, oherwydd yr anawsterau hyn, nid oedd y Cyngor yn dibynnu bellach ar wasanaethau WEE ac roedd ganddo drefniant arall ar waith i dderbyn gwybodaeth gan yr Heddlu, drwy eu CCH, i gael manylion ceidwad cofrestredig ar gyfer cerbydau a allai fod wedi'i gadael.

31. Hefyd, dywedodd Swyddog C, bod y manylion a gafodd pan gynhaliodd ymchwiliad o gronfa ddata'r WEE ar 25 Tachwedd, yn dilyn cyswllt gan Mr G, yn gwahaniaethu â'r rhai a gadwyd ar y CCH. Roedd y CCH yn cynnwys y cyfeiriad cywir ar gyfer Mr G fel y ceidwad cofrestredig, tra nad oedd cerbyd Mr G yn cofrestru ar y WEE. Cadarnhaodd Swyddog C, fodd bynnag, heblaw'r ymchwiliad a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, nid oedd ganddo unrhyw gofnod o bryd y cynhaliodd y gwiriad WEE ar gyfer cofnod Mr G na chasgliad yr ymchwiliad hwnnw. Esboniodd y dylai cofnod llaw fod o'r ymchwiliadau WEE a gynhaliwyd gan swyddogion ac ar hyn o bryd, mae swyddogion yn cwblhau cofnodydd o'u hymchwiliadau. Fodd bynnag, methodd y Cyngor i ddarparu copi o'r cofnodydd chwilio ar gyfer y cyfnod hwn, ac awgrymodd Swyddog C efallai y collwyd yn ystod symud swyddfa.

32. Yn rhoi sylw ar sylwad y Rheolwr Eiddo mai dim ond cyfeiriad ceidwad y cerbyd yr oedd angen arno unig i ganfod a oedd y cerbyd wedi'i adael, esboniodd Swyddog C na allai ddarparu'r wybodaeth hwnnw oherwydd cyfyngiadau Diogelu Data a chytundeb y Cyngor â'r DVLA. Esboniodd hefyd nad oedd yn ofynnol i'r Cyngor rybuddio ceidwad cofrestredig y cerbyd ar dir preifat, er bod y Cyngor fel arfer yn gwneud hynny er mwyn cynorthwyo i benderfynu a oedd y cerbyd wedi'i adael.

33. Esboniodd Swyddog C mai profforma oedd y Rhybudd Statudol a oedd yn cynnwys y manylion perthnasol, wedi'i argraffu a'i arwyddo a'i ddyddio a llaw, a ddylai fod wedi'i anfon at y Rheolwr Eiddo. Cadarnhaodd Swyddog C na chadwyd unrhyw gopiau o'r ddogfen hon a chytunodd, gydag ôl-ddoethineb, y dylai copi dyblyg fod wedi'i gadw.

34. Roedd Swyddog C yn cofio y bu oedi wrth arwyddo'r archeb prynnu gan adran arall o'r Cyngor rhwng ymweld â'r cerbyd yn Awst a'r cyfarwyddyd i'r Datgymalwr i godi'r cerbyd ym mis Tachwedd.

35. Roedd Swyddog C yn cofio ei fod wedi cysylltu â'r Datgymalwr, yn dilyn cyswllt gan Mr G ar 25 Tachwedd, a dywedwyd wrtho fod y cerbyd wedi'i ddinistrio. Roedd hefyd wedi rhoi manylion cyswllt y Datgymalwr i Mr G.

## Tystiolaeth pellach gan y Datgymalwr

36. Cadarnhaodd y Datgymalwr, pan gyhoeddir Tystysgrif Dinistrio, nid yw hynny'n golygu bod y car wedi'i ddinistrio'n gorfforol. Unwaith y cyhoeddir Tystysgrif Dinistrio, ni ellir defnyddio cerbyd ar y ffordd eto, er y gellir defnyddio rhannau o'r cerbyd. Cyhoeddwyd y Dystiolaeth Dinistrio unwaith yr aeth y cerbyd heibio i'r iard datgymalu.

37. Dywedodd y Datgymalwr y byddai'r cerbyd, ar 25 Tachwedd, wedi gadael yr iard i gael ei ddatgymalu mewn safle arall, felly roedd hi'n bosibl pe bai rhywun wedi galw'r swyddfa i holi am y cerbyd, efallai y dywedwyd wrthynt fod y car "wedi mynd" gan fethu i esbonio efallai nad oedd wedi'i ddinistrio'n gorfforol. Roedd gan un o staff y Datgymalwr gof, fodd bynnag, o rywun yn ffonio i ymholi ynghylch y cerbyd ac yn derbyn caniatâd i fynychu er mwyn gwirio ei gynnwys. Efallai mai dyma'r rheswm na ddinistriwyd nes 6 Rhagfyr. Fodd bynnag, ni allai'r aelod o staff gofio pwy wnaeth y cais, na phryd.

38. Cadarnhaodd y Datgymalwr na fyddai'n agor cist wedi'i gloi heblaw ei fod yn angenrheidiol ar gyfer dibenion datgymalu'r cerbyd, megis yr angen i ddraenio llifydd ayyb. Cadarnhaodd y Datgymalwr na chadwyd unrhyw eitemau o'r cerbyd.

## Tystiolaeth ychwanegol gan y DVLA

39. Cadarnhaodd y DVLA bod Mr G wedi llofnodi a dyddio'r tystysgrif cofrestru i'w hysbysu o newid cyfeiriad ar 21 Chwefror, a diweddariwyd y cyfeiriad newydd ar y cofnod cerbyd ar ei gofrestr cerbyd canolog ar 21 Mawrth. Cadarnhaodd y DVLA bod manylion cerbyd yn cael eu

trosglwyddo i'r CCH o fewn 48 awr o newid record, a bod yr wybodaeth hon hefyd ar gael ar y system WEE o fewn 24 awr o wneud newid ar y gofrestr ganolog.

40. Cadarnhaodd y DVLA y byddai'r gwasanaeth WEE yn dangos manylion y Ceidwad Cofrestredig o'r cofnod cofrestr cerbydau byw, ac ers 3 Hydref 2014, roedd Mr G wedi'i ddangos fel ceidwad cofrestredig y cerbyd.

41. Cadarnhaodd y DVLA na ddefnyddiwyd defnyddiwr adnabod Swyddog C er mwyn ymgymryd ag unrhyw ymchwiliadau ar gyfer rhif cofrestru cerbyd Mr G rhwng 9 Mawrth a 24 Tachwedd 2016. Roedd y DVLA, fodd bynnag, yn gallu cadarnhau bod defnyddiwr adnabod Swyddog C wedi cael ei ddefnyddio i ymgymryd â 63 ymchwiliad arall ar ei system WEE yn ystod yr un cyfnod. Cadarnhaodd y DVLA hefyd bod Swyddog C wedi ymgymryd ag ymchwiliad WEE ar 25 Tachwedd ac er na allai gadarnhau canlyniad yr ymchwiliad bryd hynny byddai Mr G wedi ymddangos fel ei Geidwad Cofrestredig.

**Dadansoddiad a Chasgliadau**

42. Er mwyn i mi gadarnhau cwyn, rhaid i ddwy elfen ymddangos yn bresennol. Mae'r cyntaf yn cynnwys tystiolaeth amlwg o gamweinyddu. Mae camweinyddu, er nad diffinir yn y gyfraith, yn cynnwys methu â chymhwyso rheolau yn gywir, diffyg sylw ac oedi. Mae gweinyddu da yn cynnwys gweithredu yn unol â safonnau ansawdd cydnabyddedig ac ymarfer da sefydledig. Dylai gwneud penderfyniad roi sylw priodol i'r ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a rhoi pwysau teg i'r holl ystyriaethau perthnasol, anwybyddu rhai amherthnasol a chydbwyso'r dystiolaeth yn briodol.

43. Yn achos Mr G, gadawodd ei gerbyd mewn cilfach barcio y tu allan i cyfadeilad breswyl lle bu'n byw. Cwblhaodd hysbysiad SORN a rhybuddiodd y DVLA o'i gyfeiriad presennol ble roedd yn cadw ei gerbyd. Mae hefyd yn ymddangos ei fod wedi hysbysu'r landlord am ei fwriad i gadw ei gerbyd ar y safle, er ei fod yn ymddangos nad oedd y landlord yn ymwybodol o fanylion penodol y cerbyd. Ni chodwyd unrhyw fater o bryder gyda Mr G ynghylch y cerbyd, a'r tro cyntaf iddo ddod yn

ymwybodol o farn y Cyngor bod y cerbyd wedi'i adael oedd ar ôl iddo ddychwelyd adref ar 24 Tachwedd i ddarganfod bod y Datgymalwr wedi symud ei gerbyd, ar gyfarwyddiadau'r Cyngor.

44. Ar ôl ystyried y mater yn ofalus, rwy'n fodlon bod swyddogion y cyngor â'r hawl i ystyried cerbyd Mr G fel wedi'i adael, o ystyried hyd yr amser yr oedd wedi aros yn ei le. Rwyf hefyd yn fodlon bod y Cyngor wedi gwneud ymdrechion cychwynnol i adnabod ceidwad cofrestredig y cerbyd drwy ymweld â chyfeiriad a ganfuwyd o fewn y cerbyd. Fodd bynnag, mae'n ymddengys i mi, pe bai'r Cyngor wedi cael mynediad llwyddiannus at y dystiolaeth a gedwir ar gronfa ddata WEE y DVLA, byddai wedi canfod mai Mr G oedd Ceidwad Cofrestredig y cerbyd a'i fod yn byw yn yr eiddo y tu allan i'r safle ble cadwyd y cerbyd. Mae'r dystiolaeth yr wyf wedi'i weld yn cadarnhau mai dyma'r modd y byddai'r cyngor, fel rheol, wedi adnabod a oedd cerbyd wedi'i adael.

45. Mae Swyddog C yn datgan ei fod yn cofio cynnal ymchwiliad WEE ond ei fod wedi methu ag adnabod Mr G fel Ceidwad Cofrestredig y cerbyd. Fodd bynnag, ni wnaeth Swyddog C nodyn o gynnal ymchwiliad o'r fath ar unrhyw ffeil y Cyngor. Ymhellach, mae'r DVLA wedi cadarnhau fod manylion cywir Mr G ar ei gronfa data WEE ar gyfer yr holl gyfnod dan sylw. Cadarnhaodd hefyd, er bod Swyddog C wedi cynnal nifer o ymchwiliadau eraill yn ystod y cyfnod hwn, nid oes ymchwiliad ar gyfer cerbyd Mr G wedi'i gofnodi. Ar gydbwysedd felly, credaf fod tystiolaeth DVLA yn fwy perswadiol nag tystiolaeth Swyddog C. Gan hynny, ni chredaf fod Swyddog C wedi cynnal ymchwiliad WEE ar gyfer cerbyd Mr C neu, os gwnaeth hynny, cafodd gwall ei wneud wrth fewnbynnu manylion y cerbyd.

46. Mewn unrhyw ddigwyddiad, mae'n ymddangos bod y cyngor wedi penderfynu ei bod yn briodol cyhoeddi rhybudd statudol, yn dilyn ei ymchwiliadau, i hysbysu'r Rheolwr Eiddo o'i fwriad i symud y cerbyd, oni bai ei fod yn gwrthwynebu i'w symudiad o fewn 15 diwrnod. Methodd y Cyngor i ddarparu unrhyw dystiolaeth cymhellol i brofi bod y rhybudd statudol wedi cael ei gyhoeddi. Nid oes unrhyw gofnod o gyhoeddi'r rhybudd statudol ar unrhyw ffeil y Cyngor ac nid oes gan y Cyngor copi o'r rhybudd wedi'i lofnodi na'i ddyddio. Dywedodd y Cyngor bod y Rhybudd Statudol wedi anfon drwy Bost Dosbarth Cyntaf a bod hyn yn

ddigon i fodloni Rheolau Trefniadaeth Sifil y Llys.  Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau sy'n ymwneud ag symud a dinistrio cerbydau yn amodi y dylai anfon Rhybudd Statudol drwy lythyr cofrestredig neu wasanaeth dosbarthiad a gofnodwyd.  Mae gofynion y Rheoliadau sy'n cael ei gymhwyso i'r amgylchiadau penodol hwn yn amlwg yn trechu disgwyliadau mwy cyffredinol y Llysoedd.  Mae hwn yn fethiant gwasanaeth o ran arfer weinyddol sylfaenol ac ymlyniad wrth reoliadau statudol.

47. Ymhellach, mae'r Rheolwr Eiddo wedi datgan nad oedd wedi derbyn y Rhybudd Statudol.  Mae ei gyfrif yn cael ei atgyfnerthu gan y ffaith ei fod wedi cysylltu â'r Cyngor ar 10 Awst, er mwyn holi ynghylch y gwaith papur yr arweinwyd ef i ddisgwyl y byddai'n cael ei gyhoeddi. Dylai hyn yn unig fod wedi rhybuddio'r Cyngor o'r posibilrwydd nad oedd y Rhybudd Statudol wedi cael ei gyhoeddi.

48. O berthnasedd pellach i hyn, tra bod y Cyngor yn dweud bod Rhybudd Statudol gyda graddfa amser 15-diwrnod wedi cael ei gyhoeddi, nid yw'n gwybod, a ni allai brofi, pryd y cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol.  O ganlyniad, ni welaf sut y gallai bennu pryd y byddai unrhyw gyfnod ymateb ar gyfer y Rheolwr Eiddo yn dod i ben. Felly, ar yr achlysur hwn, mae hyn yn gwneud yr honiad ynghylch cyhoeddi'r Rhybudd Statudol yn ddiystyr ac yn anghynaladwy.

49. Rwy'n ystyried bod tystiolaeth cymhellol o gamweinyddu yn y modd y mae'r Cyngor wedi ymdrin â'r mater hwn, gan fod:

- Methiant i wasanaethu Rhybudd Statudol at y Rheolwr Eiddo yn y modd penodol.

- Methiant i dystioli bod llythyr wedi'i anfon a methiant i gadw copi o'r ddogfen a gyhoeddwyd yn ôl yr haeriad.

- Methiant i gofnodi manylion wrth gynnal gwiriadau WEE, gydag anghysondeb rhwng atgof Swyddog, ynghylch a gynhaliwyd y gwiriadau neu bryd y cynhaliwyd hwy, eu canlyniadau, a'r cofnodyddion a gedwir gan y DVLA.

- Methiant i gadw dogfen cofnodydd ymchwiliad WEE y Cyngor.

- Methiant i sicrhau fod gan y Cyngor yr awdurdod priodol ar gyfer symud a dinistrio cerbyd Mr G yn unol â’r Rheoliadau.

- Camgyflead â Mr G ynglŷn ag a oedd ei gerbyd wedi’i ddinistrio neu beidio.

50. O ran anghyfiawnder i Mr G, mae’n ymddangos i mi, pe bai’r Rheolwr Eiddo wedi derbyn y Rhybudd Statudol ac wedi gwneud dewis i beidio cymryd camau, drwy hynny’n rhoi cydsyniad mud i symud y cerbyd o’i eiddo, byddai hyn yn fater y gallai Mr G fod wedi ei godi’n breifat â’r Cwmni Rheoli. Fel mae’n sefyll, nid oes tystiolaeth i brofi y cafodd y Rheolwr Eiddo'r cyfle hwn, a methodd y Cyngor i ddangos ei fod wedi dinistrio cerbyd Mr G a’i eiddo yn unol â’r Rheoliadau. Gan hynny, rwy’n **cadarnhau’r** gŵyn.

51. Gan nad yw’r Cyngor wedi gallu dangos bod ganddo’r awdurdod priodol i symud a chael gwared â cherbyd Mr C yn unol â’r Rheoliadau, ni ddylai fod wedi cyfarwyddo’r Datgymalwr i wneud hynny. Mae’n ymddangos bod y Datgymalwr wedi dilyn cyfarwyddiadau’r Cyngor i symud a chael gwared â’r cerbyd. Rwy’n fodlon y dinistriwyd y cerbyd gan y Datgymalwr, yn unol â chyfarwyddiadau’r Cyngor.

52. Yn sicr, mae anghysondeb ynghylch y digwyddiadau sy’n ymwneud â’r hyn a ddywedwyd ynglŷn â chael gwared â’r cerbyd na allaf ddatrys gyda sicrwydd. Mae’n gredadwy bod diffyg cyfathrebu pan gysylltiwyd â’r Datgymalwr ar 25 Tachwedd a arweiniodd at y canfyddiad bod y cerbyd wedi’i ddinistro. Wedi dweud hynny, nid yw’r rheswm dros ohirio dinistrio’r cerbyd mor hawdd i’w gysoni. Fodd bynnag, nid oedd y Datgymalwr yn gallu cofio pryd y derbyniwyd cyswllt am y cerbyd neu gan bwy. Felly, nid wyf yn gallu datrys y mater hwn. Mewn unrhyw achos, oherwydd y rhesymau a nodir uchod, ni ddylai’r sefyllfa hon fod wedi codi ac felly mae’r anghyfiawnder i Mr G yn sefyll, fel y nodir uchod.

**Argymhellion**

53. Rwy'n **argymhell** bod y cyngor, o fewn un mis o ddyddiad yr adroddiad hwn, yn:

a) Ymddiheuro i Mr G am y diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn.

b) Darparu iawndal o £2500 i Mr G am golli ei gerbyd a'i gynnwys. Mae hyn yn ystyried cost adnewyddu'r cerbyd a'r offer a'r colledion ôl-ddilynol posibl o ganlyniad i effaith colli ei offer ar ei botensial i gynhyrchu incwm ychwanegol.

c) Darparu iawndal pellach o £250 i Mr G am ei amser a'i drafferth o orfod mynd ar ôl y Cyngor a'i yswirwyr, dros gyfnod hir o amser, am esboniad o'u gweithredoedd.

54. Rwy'n **argymhell** ymhellach bod y Cyngor, o fewn tri mis o ddyddiad yr adroddiad hwn, yn adolygu a diwygio trefniadaeth o fewn ei Wasanaeth Stryd, i sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu creu a bod dogfennau yn cael ei gadw ar gyfer pob gweithgaredd sy'n ymwneud â symud a chael gwared â cherbydau o dan y Rheoliadau.

55. Rwyf yn falch o nodi bod y Cyngor wrth gyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.

**Nick Bennett** 3 Hydref 2018
Ombwdsmon

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150
Ffacs: 01656 641199
Ebost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk
Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon